

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Dyddiad Cyhoeddi: 12 Mai 2017

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

STATWS: CAM GWEITHREDU

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: Newid brechlyn fel rhan o'r rhaglen imiwneiddio rheolaidd gychwynnol i fabanod

Dyddiad dod i ben / Adolygu Amherthnasol

I'w weithredu gan:

Meddygon Teulu
Prif Weithredwyr, Byrddau Iechyd
Prif Weithredwr, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Er gwybodaeth:

Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau
Iechyd
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau
Iechyd
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau Iechyd
Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd y
Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau
Ataliadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Anfonwyd gan:

Prif Swyddog Meddygol Cymru

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru :

David Vardy, Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
Ffôn: 0300 025 7681

Annwyl Gyfaill

Yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn, bydd Infanrix hexa® (DTaP/IPV/Hib/HepB) yn disodli Pediacel® ac Infanrix-IPV+Hib® (DTaP/IPV+Hib) fel y prif frechiadau i fabanod. Mae'r newid hwn yn golygu y **bydd babanod yn cael eu hamddiffyn rhag y feirws hepatitis B** yn ogystal â'u hamddiffyn rhag difftheria, tetanws, pertwsis, polio a Hib.

Cefndir

Ym mis Hydref 2014, argymhellodd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) y dylid gweithredu rhaglen gyffredinol i fabanod yn defnyddio brechlyn hexavalent (DTaP/IPV/Hib/HepB) yn amodol ar ei gaffael am bris cost-effeithiol. Mae rhagor o wybodaeth i'w chael yng nghofnodion cyfarfod a gynhaliwyd gan JCVI ym mis Hydref 2014 yn:

<https://app.box.com/s/iddfb4ppwkmjtusir2tc>

Newid brechlyn fel rhan o'r rhaglen imiwneiddio rheolaidd i fabanod

Dim ond y math o frechlyn a ddefnyddir y bwriedir ei newid. Ni fydd yr amserlen ar gyfer imiwneiddio yn newid.

Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnig Infanrix hexa® (DTaP/IPV/Hib/HepB) i fabanod a fydd wedi cael eu geni ar 1 Awst neu wedi hynny, a hynny o ddiwedd mis Medi/dechrau mis Hydref, yn 8, 12 ac 16 wythnos oed fel rhan o'r amserlen ar gyfer imiwneiddio rheolaidd i blant. Bydd y dyddiad penodol ar gyfer ei gyflwyno yn dibynnu ar faint o'r brechlyn pentavalent sydd ar ôl. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn nes at yr amser.

Tabl 1 - Yr amserlen ar gyfer imiwneiddio rheolaidd i blant yn dilyn cyflwyno Infanrix hexa®

Oed	Clefydau yr amddiffynnir rhagddynt	Brechlynnau a ddefnyddiwyd	
8 wythnos	Difftheria, tetanws, pertwsis, polio, Hib a hepatitis B	Infanrix hexa	DTaP/IPV/Hib/HepB (y glun)
	Niwemococol	Prevenar 13	Brechlyn niwemococol cyfun (y glun)
	Meningococol grŵp B	Bexsero	MenB (y glun chwith)

	Rotafirws	Rotarix	Rotafirws (drwy'r geg)
12 wythnos	Difftheria, tetanws, pertwsis, polio, Hib a hepatitis B	Infanrix hexa	DTaP/IPV/Hib/HepB (y glun)
	Rotafirws	Rotarix	Rotafirws (drwy'r geg)
16 wythnos	Difftheria, tetanws, pertwsis, polio, Hib a hepatitis B	Infanrix hexa	DTaP/IPV/Hib/HepB (y glun)
	Niwrococol	Prevenar 13	Brechlyn niwrococol cyfun (y glun)
	Meningococol grŵp B	Bexsero	MenB (y glun chwith)

Goblygiadau'r rhaglen imiwneiddio dewisol i fabanod newydd-anedig i'r rheini sydd mewn perygl o hepatitis B

Nid yw cyflwyno Infanrix hexa® (DTaP/IPV/Hib/HepB) yn golygu nad oes angen cynnal y rhaglenni sgrinio sy'n bodoli eisoes ar gyfer hepatitis B mewn beichiogrwydd ac imiwneiddio dewisol i fabanod newydd-anedig sydd wedi'u geni i famau sydd wedi'u heintio â'r feirws hepatitis B. Mae'r babanod hyn yn agored i'r feirws hepatitis B yn ystod yr esgor ac maent mewn perygl uchel o gael haint hepatitis B parhaus os na fyddant yn cael eu himiwneiddio'n brydlon gan ddechrau ar unwaith adeg eu genedigaeth.

Bydd menywod beichiog yn dal i gael eu sgrinio am hepatitis B yn ystod beichiogrwydd a bydd dal i fod angen dos o'r brechlyn monovalent hepatitis B adeg eu genedigaeth ar fabanod sy'n cael eu geni i famau sydd wedi'u heintio â'r feirws hepatitis B ac, os oes ei angen, byddant hefyd yn cael immunoglobulin hepatitis B (HBIG). Bydd angen dos o'r brechlyn monovalent hepatitis B ar y babanod hyn pan fyddant yn 4 wythnos oed hefyd.

Fodd bynnag, dylai'r rheini sydd wedi'u geni ar ôl 1 Awst 2017 gael Infanrix hexa® (DTaP/IPV/Hib/HepB) pan fyddant yn 8 wythnos oed, yn hytrach na dos o frechlyn monovalent hepatitis B. Dylent wedyn gael Infanrix hexa® (DTaP/IPV/Hib/HepB) unwaith eto pan fyddant yn 12 ac yn 16 wythnos oed.

Bydd dal angen dos o'r brechlyn monovalent hepatitis B pan fyddant yn flwydd oed ar fabanod sy'n cael eu geni i famau sydd wedi'u heintio â'r feirws hepatitis B, ynghyd â phrawf gwaed am HBsAg i sicrhau nad ydynt wedi'u heintio ond nid oes mwyach angen dos atgyfnerthu cyn ysgol o'r brechlyn monovalent hepatitis B cyn ysgol (Tabl 2).

Tabl 2 - Hepatitis B yn yr amserlen ar gyfer imiwneiddio rheolaidd i blant a'r rhaglen frechu ddewisol rhag hepatitis B i fabanod newydd-anedig yn dilyn cyflwyno Infanrix hexa®

Oed	Rheolaidd i Blant	Babanod sy'n cael eu geni i famau sydd wedi'u heintio â hepatitis B
Genedigaeth		Monovalent HepB (Engerix B neu BvaxPRO Paediatric) (gyda HBIG os oes angen)
4 wythnos		Monovalent HepB (Engerix B neu HBvaxPRO)
8 wythnos	DTaP/IPV/Hib/HepB (Infanrix hexa)	DTaP/IPV/Hib/HepB (Infanrix hexa)
12 wythnos	DTaP/IPV/Hib/HepB (Infanrix hexa)	DTaP/IPV/Hib/HepB (Infanrix hexa)
16 wythnos	DTaP/IPV/Hib/HepB (Infanrix hexa)	DTaP/IPV/Hib/HepB (Infanrix hexa)
12-13 mis		Monovalent HepB (Engerix B neu HBvaxPRO Paediatric) Profi am HBsAg

Archebu brechlynnau a rheoli stoc

Disgwylir y bydd brechlyn ar gael i'w archebu drwy borthol ImmForm o 1 Medi 2017 yn barod ar gyfer y newid arfaethedig ddiwedd mis Medi/dechrau Hydref 2017. Cyn y dyddiad hwn, er mwyn osgoi gwastraff posibl, dylai practisau cyffredinol a byrddau iechyd geisio cwtogi ar y cyflenwad o frechlynnau Pediacel® ac Infanrix-IPV+Hib® sy'n cael ei gadw mewn stoc ganddynt a dim ond archebu'r lleiafswm angenrheidiol i gwblhau'r rhaglen frechu babanod cyn diwedd mis Awst. Dim ond i fabanod hŷn y dylid rhoi Infanrix hexa® (hy babanod a anwyd cyn 1 Awst) os nad oes cyflenwad o'r brechlyn yn cael ei gadw'n lleol ac os na ellir archebu rhagor o Pediacel® neu Infanrix-IPV+Hib® drwy borthol ImmForm. Bydd rhagor o wybodaeth ac unrhyw newidiadau i'r dyddiad hwn neu'r trefniadau yn cael eu darparu yn ôl yr angen.

Wedi i Infanrix hexa® gael ei gyflwyno i fabanod a gafodd eu geni ar neu wedi 1 Awst, er mwyn osgoi gwastraffu brechlyn, dylid defnyddio unrhyw gyflenwadau dros ben o Pediacel® ac Infanrix-IPV+Hib® (DTaP/IPV+Hib) ar gyfer babanod sydd eisoes wedi dechrau cyrsiau o Pediacel® neu Infanrix-IPV+Hib® (ail neu drydydd dos), neu os oes brechlyn ar ôl, yna fel mesur dros dro gellir ei ddefnyddio ar gyfer pigladau atgyfnerthu cyn ysgol yn 3 blwydd a 4 mis oed.

Pan fydd y cyflenwadau hyn wedi'u defnyddio i gyd, dylid mynd yn ôl i ddefnyddio Repevax® (dTaP/IPV) i roi pigiadau atgyfnerthu cyn ysgol.

Cyllid a threfniadau ar gyfer y gwasanaeth

Ni fydd unrhyw newidiadau i'r trefniadau cyllid ar gyfer y rhaglen hon yn sgil newid y brechlyn.

Bydd y Cyfarwyddiadau i Fyrddau Iechyd Lleol mewn perthynas â Chyfarwyddiadau Datganiad o Hawliau Ariannol 2013 yn cael eu diwygio maes o law i adlewyrchu'r newid i'r brechlyn.

Rhagor o wybodaeth

Bydd rhagor o wybodaeth, gan gynnwys pennod wedi'i ddiweddararu ar hepatitis B yn y Llyfr Gwyrdd, deunyddiau hyfforddi, templed o Gyfarwyddyd Grŵp Cleifion ar gyfer Infanrix hexa® (DTaP/IPV/Hib/HepB) a gwybodaeth ar gyflwyno brechlynnau ar gael maes o law.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sy'n rhan o'r gwaith o gyflenwi'r rhaglen ac am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir



Dr Frank Atherton

Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru